**COFNOD O BENDERFYNIAD GAN AELOD CABINET**

**Penderfyniad a wnaed gan:**

Aelod Arweiniol dros y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth

**Dyddiad y penderfyniad:**

28 Medi 2022

**Dyddiad cyhoeddi'r penderfyniad:**

28 Medi 2022

**Penderfyniad:**

DIDDYMU DIRWYON COSBOL AM DDYCHWELYD LLYFRAU BENTHYG AC EITEMAU ERAILL YN HWYR.

Dileu'r dirwyon cosbol hwyr a godir am ddychwelyd llyfrau benthyg ac eitemau eraill yn hwyr.

**Bwriad y penderfyniad:**

Bydd y penderfyniad yn dileu rhwystr sylweddol i'r defnydd o lyfrgelloedd - dirwyon cosbol hwyr a godir am ddychwelyd llyfrau benthyg ac eitemau eraill yn hwyr.

**Rhesymau dros wneud y penderfyniad:**

Mae Strategaeth Llyfrgelloedd Sir Ddinbych 2019-2022 yn cynnwys y bwriad i "chwilio am gyfleoedd i leihau unrhyw rwystrau gwirioneddol neu ganfyddedig sy'n atal pobl rhag cyrchu a defnyddio eu llyfrgell leol". Mae dirwyon hwyr gan lyfrgelloedd yn cael eu hystyried yn eang fel rhwystrau sylweddol i'r defnydd o lyfrgelloedd – mae'r profiad neu'r ofn o gael dirwyon yn arwain at bobl yn peidio ag ymuno neu ddychwelyd i ddefnyddio gwasanaethau llyfrgell.

Mae dirwyon, a'r ofn o ddirwyon yn cronni, yn atal pobl rhag defnyddio ac elwa o wasanaethau'r llyfrgell, gan effeithio ar eu mynediad at adnoddau a chyfleusterau i gefnogi eu llythrennedd, eu haddysg, eu sgiliau a'u lles. Mae dirwyon yn effeithio'n anghymesur ar bobl ar incwm is, ac yn cosbi pobl sy'n benthyca llyfrau (nid oes cosbau mewn perthynas â benthyca e-adnoddau digidol). Fel holl lyfrgelloedd Cymru, nid yw Sir Ddinbych wedi codi dirwyon hwyr ar blant a phobl ifanc ers blynyddoedd lawer. Byddai dileu dirwyon i oedolion yn rhoi tegwch i holl aelodau'r llyfrgell. Yng Nghymru, mae 4 awdurdod eisoes wedi dileu dirwyon ac mae 5 awdurdod arall yn cynnig eu dileu yn y flwyddyn nesaf.

Pan oedd yn ofynnol i lyfrgelloedd gau oherwydd pandemig Covid-19 ym mis Mawrth 2020, addaswyd y system fel na chodwyd dirwyon hwyr ar unrhyw gwsmer. Byddai'r penderfyniad i ddileu dirwyon yn golygu na fyddem yn eu hailgyflwyno. Mae llyfrgelloedd mewn sefyllfa dda i gefnogi pobl yn ystod yr argyfwng costau byw presennol ac yn yr adferiad ôl-bandemig, ac i helpu i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldebau.

**Cysylltiadau a ddatganwyd:**

Dim cysylltiad i'w ddatgan.

**Ymgynghoriad:**

Ymgynghorwyd â'r grŵp swyddogion penderfyniadau dirprwyedig gorfodol, yr Arweinydd a'r Aelod Arweiniol, y Cynghorydd Emrys Wynne, ar gynnwys yr adroddiad hwn.

**Yr awdurdod i ddirprwyo'r penderfyniad i'r Aelod Cabinet:**

Gweler y Cynllun Dirprwyo.